# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Hydref 2015

Amser: 09.30 - 12.16

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3269

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Graham AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jeff Cuthbert AC<br>Keith Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Eluned Parrott AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Julie James AC, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg<br>Andrew Clark, Llywodraeth Cymru<br>Berwyn Davies, Addysg Uwch Cymru Brwsel<br>Iestyn Davies, ColegauCymru<br>Yr Athro Richard Davies, Prifysgol Abertawe<br>Siân Holleran, ColegauCymru<br>Ruth Sinclair-Jones, British Council<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Michaela Renkes, Llywodraeth Cymru<br><br>Jenny Scott, British Council Cymru<br><br>Yr Athro David Shepherd, Prifysgol Bangor |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br><br>Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br><br>Rachel Jones (Dirprwy Glerc) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Antoniw AC, Dafydd Elis-Thomas AC a Gwenda Thomas AC.

1.2 Datganodd Eluned Parrott AC fod ei gŵr yn gweithio i Sefydliad Addysg Uwch.

1.3 Datganodd Keith Davies AC fod ei fab yn astudio mewn Sefydliad Addysg Uwch.

## 2 Sesiwn ddiweddaru ar Horizon 2020 ac Erasmus+

2.1 Atebodd yr Athro Richard Davies, yr Athro David Shepherd a Berwyn Davies gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

## 3 Sesiwn ddiweddaru ar Horizon 2020 ac Erasmus+

3.1 Atebodd Iestyn Davies a Siân Holleran gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

3.2 Cynigiodd Iestyn Davies ddarparu gwybodaeth bellach ymhen rhai misoedd yn nodi sut mae Sefydliadau Addysg Bellach yn gweithio gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) i gefnogi'r sector adeiladau a pheirianneg.

## 4 Sesiwn ddiweddaru ar Horizon 2020 ac Erasmus+

4.1 Atebodd Jenny Scott a Ruth Sinclair-Jones gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

## 5 Sesiwn ddiweddaru ar Horizon 2020 ac Erasmus+

5.1 Atebodd Julie James AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Huw Morris, Andrew Clark a Michaela Renkes gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

5.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i ddarparu adborth ynghylch y fenter Cymru Fyd-eang yn dilyn ei chyfarfod cyntaf, y bwriedir ei chynnal fis Tachwedd.

5.3 Cynigiodd Huw Morris ysgrifennu at y Pwyllgor gan nodi rhan Llywodraeth Cymru yn y broses o wneud cynigion am gyllid UE gan gynnwys nifer y sefydliadau addysg sydd wedi gwneud cynnig (gan gynnwys manylion yn ôl ardal) a'r ceisiadau hynny a wnaed ar y cyd, tynnwyd yn ôl neu a gyfunwyd.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Ymchwiliad i Botensial yr Economi Forol yng Nghymru

6.1.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

### 6.2 Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyswllt Amgylchedd Cymru i'r Ymchwiliad i Botensial yr Economi Forol yng Nghymru

6.2.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 8 Cyfleoedd Cyflogaeth i Bobl dros 50 Oed

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyr drafft i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a thechnoleg ar Gyfleoedd Cyflogaeth i Bobl dros 50 Oed.